

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

St Giles Dental/Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys

Dyddiad arolygu: 29 Mai 2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Awst 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?.....	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o St Giles Dental yn 3 Parc Busnes St Giles, Pool Road, Drenewydd, Powys SY16 3AJ, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 29 Mai 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod St Giles Dental yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w gleifion.

Roedd yr amgylchedd yn olau, yn lân ac yn daclus ac roedd y deintyddfeydd yn fodern ac yn cynnwys digon o adnoddau.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom drwy holiaduron AGIC fod y rhan fwyaf o'r cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir yn y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn fanwl ac roedd y cofnodion o safon dda.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn nifer o feysydd, a oedd yn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i'w cynorthwyo wrth eu gwaith.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio cyfarpar pelydr-x yn ddiogel
- Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân
- Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn
- Gwelwyd bod gwastraff yn cael ei storio'n briodol a dan glo er mwyn atal mynediad anawdurdodedig

- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth berthnasol i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth, ac roeddent yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd darpariaethau yn y practis i gleifion roi adborth.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cyflwyno rhai polisiâu a gweithdrefnau ychwanegol ac mae angen adolygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru; gan sicrhau y caiff rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru eu hadlewyrchu'n ddigonol
- Mae angen darparu hyfforddiant tân ffurfiol er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth gyfredol
- Gweler y cynllun gwella llawn yn Atodiad C.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae St Giles Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn y Drenewydd a'r ardal gyfagos. Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, pum nyrs ddeintyddol ac un rheolwr y practis/derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod St Giles Dental yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gan y practis ddwy ddeintyddfa ar y llawr gwaelod a oedd yn ei gwneud yn bosibl i bobl ag anawsterau symudedd gael eu trin yn y practis.

Roedd y practis yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gael adborth gan gleifion, megis drwy holiaduron a thrwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gwahanol. Nod y dulliau hyn oedd nodi themâu, gyda'r bwriad o wneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

Roedd llyfryn gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardal aros yn ogystal ag amrywiaeth o daflenni gwybodaeth.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 39 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers llai na blwyddyn.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

"gwasanaeth da iawn"

"yn sicr yn well na'r gwasanaeth deintyddol roeddwn yn arfer ei ddefnyddio"

"Roddwn yn nerfus am ddod i'r deintydd, ond rhoddwyd sicrwydd i mi yn gyflym iawn"

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Gwnaed un sylwad am gael opsiynau/cynlluniau talu yn y practis ac awgrymodd rhywun arall y dylid cynnal mwy o drafodaethau â chleifion am gost triniaethau.

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Dywedodd y staff wrthym y byddai'r deintyddion yn darparu gwybodaeth ddeintyddol benodol i gleifion ac roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ystafell aros am amrywiaeth o driniaethau iechyd a chosmetig.

Roedd y posteri yn y ffenestr wrth y brif fynedfa yn cynnwys enwau'r deintyddion a'r hylenydd, rhif ffôn y practis, oriau agor a rhif ffôn ar gyfer argyfyngau y tu allan i oriau. Roedd y rhain hefyd wedi'u cynnwys yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn yr ystafell aros.

Er nad oedd arwydd gweledol yn dweud 'Dim Smygu', cadarnhaodd y staff fod y practis yn cydymffurfio â'r deddfwriaeth safle di-fwg¹.

Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal mewn ffordd urddasol a pharchus a chlywsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

¹ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 - Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Roedd y staff yn gallu cael sgysiau preifat â'r cleifion yn y deintyddfeydd, ac roedd man arall ar gael hefyd, nad oedd yn rhan o'r dderbynfa/ardal aros, os oedd angen.

Roedd 9 egwyddor² y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn swyddfa'r staff, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod systemau digonol ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y wybodaeth am gleifion. Roedd copïau wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu gwneud bob dydd ac roedd y ffeiliau papur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym hefyd eu bod wedi cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth bob amser cyn iddynt gael y driniaeth. Roedd rhestr brisiau ar gyfer triniaethau yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn ogystal ag yn y ffenestr wrth y brif fynedfa.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hun i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros. Gwelsom fod y daflen gwybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Mae angen diweddarau'r datganiad o ddiben³ i gynnwys y dyddiad y cafodd ei ysgrifennu ond roedd yn cynnwys yr holl feysydd eraill sy'n ofynnol gan

² Mae naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu bod yr egwyddorion yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

³ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth Iunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i agic.org.uk

Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, ac mae ar gael i'r cleifion ei weld ar gais.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer cydsyniad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig ychwanegu'r dyddiad y cafodd y datganiad o ddiben ei ysgrifennu yn ogystal ag unrhyw ddyddiadau y cafodd ei adolygu

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Arddangoswyd y wybodaeth yn Saesneg a dywedodd y staff wrthym nad oedd ganddynt unrhyw gleifion yr oedd angen gwasanaethau mewn iaith arall arnynt. Pan ddigwyddodd hyn yn y gorffennol, daeth rhywun gyda'r claf a allai gyfieithu iddo.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion o gynlluniau triniaeth ysgrifenedig wedi'u ffeilio. Mae hyn yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio darparu gofal deintyddol mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' i gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau wedi'i arddangos y tu allan i'r practis deintyddol yn ogystal ag yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion ac roedd hefyd yn cael ei ddatgan ar beiriant ateb y ffôn.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Tudalen 12 o 32

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion a gwelsom fod yr opsiynau a'r cynlluniau triniaeth yn ogystal â'r cydsyniad iddynt wedi'u cofnodi'n briodol ar gyfer pob claf.

Fel rhan o gofnodion y cleifion, roedd hanes meddygol pob claf yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Nodwyd bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal penodol ar waith. Golygai hyn fod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd holl gyfleusterau'r practis ar gyfer y cleifion wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd y drysau yn ddigon llydan i ganiatáu ar gyfer cymhorthion symudedd a/neu gadeiriau gwthio.

Roedd arwyddion clir ar gyfer toiled y cleifion. Roedd y toiled yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo ac roedd canllawiau wedi'u gosod er mwyn cynnig cymorth ychwanegol.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer cwynion. Roedd gwybodaeth am sut i fynegi pryder wedi'i harddangos i'r cleifion yn yr ardal aros yn ogystal â'r llyfryn gwybodaeth i gleifion.

Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys terfynau amser ar gyfer ymatebion a manylion sefydliadau y gellid cysylltu â nhw er mwyn helpu cleifion â'u pryderon am driniaethau preifat.

Roedd gan y practis ffeil gwynion a oedd yn cael ei defnyddio i gofnodi a monitro unrhyw gwynion a dderbyniwyd, ac ymateb iddynt. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn adolygu'r cwynion i nodi unrhyw themâu, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi derbyn un gŵyn, ond nid oedd hon wedi'i nodi yn y ffeil ar adeg yr ymweliad. Gwnaethom hefyd awgrymu y dylai'r practis gadw cofnod o gwynion er mwyn helpu i olrhain a nodi unrhyw themâu.

Roedd y practis yn ceisio adborth gan gleifion drwy holiaduron. Caiff y canlyniadau eu dadansoddi a'u trafod lle y bo'n gymwys ymhlith y tîm er mwyn nodi unrhyw themâu sy'n codi. Cafwyd rhywfaint o adborth gan y cleifion drwy

lwyfannau adborth ar-lein. Dywedodd y staff y caiff hyn ei ddefnyddio hefyd er mwyn helpu i nodi unrhyw themâu ar gyfer gwella.

Nid oedd unrhyw system ar gyfer casglu sylwadau llafar nac adborth cyffredinol gan gleifion a gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried ffyrdd o nodi hyn. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn ymdrin ag unrhyw bryderon/sylwadau llafar yn y fan a'r lle ac yn eu defnyddio fel ffordd arall o nodi gwelliannau i'r gwasanaeth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd y practis yn darparu amgylchedd a chyfleusterau glân a thaclus i'r staff ac ymwelwyr. Roedd contractau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn fanwl, o ansawdd da ac yn glir.

Rydym wedi argymhell y dylid rhoi polisïau ar waith ar gyfer argyfyngau meddygol/dadebru a chynnal a chadw'r adeilad.

Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diogelwch y cleifion yn ystod yr arolygiad hwn.

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd gan y practis uned mewn parc busnes ac roedd holl ardaloedd y staff a'r cleifion ar y llawr gwaelod er mwyn sicrhau bod unrhyw un sy'n defnyddio cymhorthyn symudedd a/neu gadair wthio yn gallu eu cyrraedd yn hawdd. Roedd desg y dderbynfa wrth y brif fynedfa ac roedd ystafell aros fawr a oedd yn olau, yn lân ac yn daclus. Roedd dwy ddeintyddfa a oedd yn fodern ac yn cynnwys digon o offer.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Roedd pob ardal o'r practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon baglu. Roedd lleoedd parcio am ddim y tu allan i'r practis.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn "lân iawn".

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amryw leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwnaethom argymhell y dylai'r staff gwblhau cwrs hyfforddiant diogelwch tân ffurfiol er mwyn meithrin sgiliau a chael y wybodaeth ddiweddaraf. Rhaid i'r holl aelodau o'r staff hefyd lofnodi rhestr wirio yr asesiad risg tân er mwyn dangos eu bod wedi darllen a deall eu rôl mewn argyfwng. Roedd allanfeydd i'w defnyddio mewn argyfwng yn weladwy.

Roedd amryw bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag asesiadau risg, a oedd yn gyfredol ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi cynnal a chadw penodol ar waith, a gwnaethom argymhell y dylai'r practis gael un er mwyn sicrhau bod y safle yn cael ei gadw'n ddiogel ac mewn cyflwr da.

Rhodddwyd gwybod i ni ar ôl yr ymweliad fod gan y practis ddogfen/rhestr wirio gweithdrefnau dadebru Deoniaeth Cymru a chaiff ei chadw gyda'r cyffuriau brys yn yr ystafell ddihalogi. Fodd bynnag, ar adeg ein hymweliad, nid oedd gan y practis bolisi dadebru/rheoli argyfyngau meddygol ar waith, ond roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru cardio-anadlol/dadebru brys. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Yn ogystal â hyn, roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁴.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ffurfiol er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Dylai pob aelod o'r staff ddarllen a llofnodi'r rhestr wirio asesiad risg tân er mwyn cadarnhau eu bod yn deall eu rôl/rolau

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi cynnal a chadw ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn cael ei gadw'n ddiogel ac mewn cyflwr da

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi a gweithdrefnau ar gyfer argyfwng meddygol/dadebru eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff gyfarwyddiadau clir i'w dilyn mewn argyfwng

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan ddefnyddio adnoddau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys adnodd archwilio

⁴ Nod y Cyngor Dadebru (y DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Deoniaeth Cymru sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Cydnabuwyd bod hyn yn arfer da am fod yr archwiliad yn gynhwysfawr.

Roedd contract ar waith i drosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol mewn biniau diogel y tu allan i'r practis. Roedd casgliadau gan y cyngor lleol ar waith i waredu gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau a achosir gan gyfarpar miniog. Gwelsom gofnodion ynghylch statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelwyd bod cyffuriau brys a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei fod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio hen gyffuriau a chwistrelli a rhoi rhai newydd yn eu lle, yn unol â'r safonau a nodir gan y Cyngor Dadebru (DU).

Roedd gan y practis bolisi ar waith yn ymwneud ag archebu a chofnodi meddyginiaethau a rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion.

Er nad oes gan y practis bolisi ar gyfer argyfyngau meddygol ar waith, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu dangos eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai angen iddynt roi gwybod am ddiwyddiad anffodus yn ymwneud â chyffuriau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd polisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Roedd siart llif ar gael a oedd yn nodi pwy y dylid cysylltu ag ef a'r camau y dylai'r staff eu cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu oedolion a phlant. Roedd y practis wedi penodi aelod o'r staff fel yr

arweinydd diogelu enwebedig. Mae'n gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu, a gall roi rhywfaint o gyfarwyddyd ar faterion diogelu.

Cadarnhaodd y staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â'r gwaith gyda'r prif ddeintydd a/neu reolwr y practis a'u bod yn hyderus y byddai'n ymateb i'r pryderon hynny.

Disgrifiodd y staff y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal mewn perthynas ag unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd⁶ (DBS). Cadarnhaodd y staff y byddai gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o'r staff yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd, a nodwyd gennym fod hyn yn arfer da.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y ddeintyddfa er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm clinigol wedi cael ei hyfforddi'n addas i ddefnyddio'r cyfarpar.

Roedd y ddeintyddfa yn lân ac yn drefnus. Roedd lloriau ac arwynebau'r ddeintyddfa yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr ardderchog ac roedd digon ar gael.

Daethom i'r casgliad bod trefniadau ar waith gan y practis i ddefnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Daethom i'r casgliad hwn gan fod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol am ddefnyddio offer pelydr-X ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol⁷ wedi'u harddangos ger yr offer pelydr-X i nodi'r cyfarwyddiadau gweithio allweddol, er mwyn sicrhau bod y staff yn cael eu hamlygu i'r offer cyn lleied â phosibl.

⁶ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

⁷ Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau mewn deintyddfa. Bwriedir iddynt nodi'r cyfarwyddiadau gwaith allweddol er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamlygu i'r offer pelydr-x cyn lleied â phosibl.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod y deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod, felly, yn bodloni'r canllawiau a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi'u cwblhau'n fel rhan o'r gweithgareddau monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth dynnu lluniau pelydr-X ac yn nodi lle y dylid gwneud gwelliannau, os oes angen.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis gyflwyno rhaglen dreigl o'u harchwiliadau i gynnwys yr holl staff. Gwnaethom hefyd argymhell y dylai gwblhau archwiliadau rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfotigau. Bydd canlyniadau'r archwiliadau hyn yn helpu i nodi unrhyw feysydd ar gyfer gwella ac yn cefnogi unrhyw newidiadau i arferion y tîm deintyddol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael y canllawiau diweddaraf drwy gylchlythyrau gan gyrrff allanol a chan aelodau o staff sy'n mynychu cynadleddau a hyfforddiant.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig gyflwyno rhaglen dreigl o archwiliadau fel y gall y staff gymryd rhan ynddynt ac er mwyn sicrhau y gellir defnyddio canlyniadau'r archwiliadau fel canllaw i wneud newidiadau lle y bo'n briodol.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan y practis raglen o archwiliadau mewnol a gynhelir er mwyn iddo allu dangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod adolygiadau cyffredinol gan gymheiriaid yn mynd rhagddynt ymhlith y staff, practisau lleol a fforymau deintyddol ar-lein. Bydd hyn yn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i'r cleifion.

Nid yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Dywedodd y staff fod y practis wedi defnyddio rhywfaint o'r adnoddau gwella ansawdd a ddarparwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Deoniaeth Cymru

yn ffurfiol), ond y byddant yn ystyried eu defnyddio'n fwy aml. Gall yr adnoddau hyn helpu timau i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar y ffordd y maent yn gweithio gyda'i gilydd.

Gan mai dim ond yn ddiweddar y gwnaeth y practis gofrestru ag AGIC, gwnaethom atgoffa'r staff bod angen cynnal ymweliadau gan y darparwr cofrestredig yn unol â'r rheoliadau.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copiâu wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi diogelu data. Golygai hyn fod y staff yn gallu cael gafael ar ganllawiau addas mewn cysylltiad â'u gwaith o ddydd i ddydd.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod y practis yn cadw cofnodion clinigol o ansawdd uchel. Roedd hyn yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel, gan gynnwys diogelwch a llesiant deintyddol y cleifion.

Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth am drafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau a sut y gofynnwyd am gydsyniad cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd fod triniaethau yn cael eu cynllunio a bod y cleifion yn cael cynlluniau triniaeth i'w hystyried.

O blith y cofnodion a welsom, nodwyd gennym fod y profion pelydr-X yn amserol ac o ansawdd da. Roedd y rhesymau dros gynnal profion pelydr-X a, lle y bo'n berthnasol, y rhesymau dros beidio â'u cynnal, wedi'u dogfennu'n glir yn y nodiadau.

Roedd y nodiadau'n cael eu storio'n briodol ac roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Mae hwn yn bractis sefydledig, y mae'r prif ddeintydd a rheolwr y practis yn berchen arno ac yn ei arwain. Roedd tystiolaeth gref i ddangos ei fod yn bractis deintyddol sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar waith sy'n ymdrechu i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n flynyddol, neu yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol.

Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn sawl maes.

Rydym wedi argymhell y dylid dileu unrhyw gyfeiriadau at reoliadau Seisnig a/neu gyrff nad ydynt yn gymwys yng Nghrymu yn ogystal ag adolygu'r dull presennol o ddileu geirdaon ar ôl 12 mis yn unol â'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd a rheolwr y practis sy'n berchen ar y practis a chaiff ei reoli ganddynt ac mae tîm ehangach o staff clinigol yn eu cefnogi. Gwelsom fod gan y practis linellau atebolrwydd clir a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydweithio'n dda ac roedd y gydberthynas dda rhyngddynt â'r ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion yn dystiolaeth o hyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban ac yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon am ofal y cleifion, naill ai'n uniongyrchol gyda'r deintydd, neu gyda chorff amgen priodol, lle bo angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion ac ategwyd hyn gan ystod o bolisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom fod y staff wedi llofnodi ffurflen i ddangos eu bod wedi darllen y polisïau a'r gweithdrefnau, a'u bod yn eu deall ac yn eu hadolygu'n gyson. Wrth adolygu'r polisïau, gwnaethom sylwi bod rhai ohonynt yn cyfeirio at sefydliadau sy'n gymwys yn Lloegr a bod angen eu diweddarau i fod yn gymwys yng Nghymru.

Caiff datganiad o ddiben y practis a'r canllawiau i gleifion eu dogfennu yn yr adran gwybodaeth i gleifion yn y rhan o'r adroddiad hwn sy'n cyfeirio at ansawdd profiad y claf.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd gan y practis hefyd dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gyffredol.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, atgoffwyd yr unigolyn cyfrifol bod angen cynnal ymweliadau yn unol â rheoliad 23 fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth rheoleiddiedig ei reoli a sicrhau ansawdd gwasanaethau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu diweddarau er mwyn sicrhau bod rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisïau yn ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis. Roedd y rhain yn cynnwys y polisi recriwtio, disgyblu, cwynion, cydraddoldeb, amrywiaeth a chwythu'r chwiban.

Gwelsom y rhaglen sefydlu sydd ar waith ar gyfer pob aelod newydd o staff, ac roedd tystiolaeth o hyn yn ffeiliau'r aelodau newydd o staff a welsom. Gan fod y practis yn mynd i fod yn defnyddio nyrs asiantaeth yn y dyfodol agos, gwnaethom awgrymu bod sesiwn sefydlu yn cael ei chynnal. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth cyn cyflogi a oedd yn cynnwys contract. Gwelsom fod y practis yn gofyn am eiridon ar gyfer gweithwyr newydd, ond dywedwyd wrthym y cânt eu dileu ar ôl 12 mis yn seiliedig ar gyngor a geisiwyd gan y

practis. Gwnaethom argymell y dylid adolygu'r broses hon yn unol â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 o ran dangos tystiolaeth o gasglu gwybodaeth lawn am gyflogaeth.

Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff gael tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyn dechrau ei swydd, a gwelsom dystiolaeth o'r rhain ar gyfer pob aelod o grŵp y staff. Dywedodd y staff wrthym y byddai tystysgrifau DBS yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Mae'r arfer hwn yn helpu i sicrhau dewisiadau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, er enghraifft plant.

Roedd gan y practis broses arfarnu ar waith a gwelsom fod y staff wedi cael eu harfarnu'n flynyddol.

Gwelsom ddefnydd da o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer pob aelod o'r staff a dangosodd y tystysgrifau a welsom fod y staff wedi trafod amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau ac sy'n bodloni gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol bob mis a gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B er mwyn eu hamddiffyn nhw eu hunain a'r cleifion rhag yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwneidd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 o ran casglu hanes cyflogaeth llawn er mwyn sicrhau nad yw'r dull o gael gwared ar eirdaon ar ôl 12 mis yn mynd yn groes i'r rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: St Giles Dental

Dyddiad arolygu: 29 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: St Giles Dental

Dyddiad arolygu: 29 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r darparwr cofrestredig ychwanegu'r dyddiad y cafodd y datganiad o ddiben ei ysgrifennu yn ogystal ag unrhyw ddyddiadau y cafodd ei adolygu	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 5 (1)	Mae dyddiad y Datganiad o Ddiben gwreiddiol wedi'i gadarnhau yn ogystal â'r dyddiad adolygu diweddaraf ac ychwanegwyd y ddau ohonynt at y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn lolfa'r cleifion	Sandra Morris	Ar unwaith
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelwch tân ffurfiol er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad	Bydd yr holl aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant ar ymwybyddiaeth tân gan ddefnyddio pecyn hyfforddiant ar-lein	Sandra Morris	31.07.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
a'r wybodaeth ddiweddaraf	22 (4) (c)	Isopharm		
Rhaid i bob aelod o'r staff ddarllen a llofnodi'r rhestr wirio asesiad risg tân er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u rôl/rolau ac yn eu deall	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22 (4) (c)	Caiff asesiad risg tân ei diwygio er mwyn sicrhau y gall y staff ei llofnodi. Caiff hyn ei drafod yn y cyfarfod staff nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer 02.07.2019	Vera Morris	02.07.2019
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi cynnal a chadw ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn cael ei gadw'n ddiogel ac mewn cyflwr da	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8 (1) (c) (d) (e)	Caiff polisi cynnal a chadw addas ei roi ar waith gan adeiladu ar y cynllun i gynnal a chadw cyfarpar a'r safle sydd eisoes ar waith. Caiff archwiliad rheolaidd ei roi ar waith ar gyfer y safle hefyd – gweler isod	Sandra Morris	31.07.2019
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff polisi a gweithdrefnau ar gyfer argyfwng meddygol/dadebru eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff gyfarwyddiadau clir i'w dilyn mewn argyfwng	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 8 (o) (q)	Caiff y gweithdrefnau dadebru presennol gan Ddeoniaeth Cymru (a gaiff eu cadw gyda'r cyffuriau brys) eu copïo a'u gosod yn ffolder polisiâu'r practis. Caiff polisi dadebru newydd ei lunio i gyd-fynd â'r gweithdrefnau	Sandra Morris	31.07.2019
Dylai'r darparwr cofrestredig gyflwyno rhaglen	Rheoliadau Deintyddiaeth	Caiff rhaglen o archwiliadau ychwanegol ei chyflwyno i ychwanegu at yr	Sandra Morris	Cynllun archwilio

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dreigl o archwiliadau fel y gall y staff gymryd rhan ynddynt ac er mwyn sicrhau y gellir defnyddio canlyniadau'r archwiliadau fel canllaw i wneud newidiadau lle y bo'n briodol.	Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 16 (1)(a) a (2) (d)(ii)	archwiliadau WHTM a radiograffeg sydd eisoes ar waith. Rydym wedi trefnu i archwilio rhagnodi gwrthficrobaidd, cofnodion cleifion a'r safle. Caiff y canlyniadau eu trafod mewn cyfarfodydd staff a bydd hyn yn llywio gwelliannau pellach i'r gwasanaeth a ddarperir		31.07.2019 Caiff pob archwiliad ei gwblhau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2019
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff yr holl bolisiâu a gweithdrefnau eu diweddarau er mwyn sicrhau bod rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 8 (6) a (8)	Caiff y polisiâu a'r gweithdrefnau eu hadolygu er mwyn sicrhau bod pob cyfeiriad at ddogfennau Seisnig yn cael ei ddileu a bod rheoliadau, safonau a chanllawiau Cymreig priodol yn cael eu rhoi yn eu lle.	Sandra Morris	31.07.2019
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 o ran casglu hanes cyflogaeth llawn er mwyn sicrhau nad yw'r dull o gael gwared ar eirdaon ar ôl 12 mis yn mynd yn groes i'r rheoliadau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 18 (2) (e)	Bydd y polisi presennol ar gyfer dileu geirdaon cyflogaeth ar ôl 12 mis yn dirwyn i ben yn syth a rhoddir nodyn yn ffeiliau cyflogeion presennol i ddangos y cafwyd geirdaon ond eu bod wedi cael eu dileu	Sandra Morris	Newid polisi: ar unwaith Nodi: 30.06.2019

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Sandra Morris

Swydd: Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 26.06.2016